



## Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Adolygu eich gwerth ardrethol drafft  
[www.gov.uk/voa/revaluation](http://www.gov.uk/voa/revaluation)  
erbyn 30 Tachwedd 2016

# Mae ardrethi busnes yn newid Ewch ar lein i adolygu eich gwerth ardrethol drafft

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod i chi ein bod wedi cwblhau'r ailbrisiad o werthoedd ardrethol a bellach wedi cyhoeddi'r gwerthoedd ardrethol drafft ar lein.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), un o asiantaethau gweithredol CThEM, yn gyfrifol am asesu gwerthoedd ardrethol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ailbrisiad o werthoedd ardrethol yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr ers 2008.

### Beth sydd angen i chi ei wneud

1. **CLICIO:** [www.gov.uk/voa/revaluation](http://www.gov.uk/voa/revaluation) i weld eich gwerth ardrethol drafft.
2. **DOD O HYD I:** gyfeiriad eich eiddo drwy'r cod post neu'r cyfeiriad.
3. **ADOLYGU:** y wybodaeth i sicrhau bod yr holl wybodaeth am eich eiddo a ddelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gywir.

Bydd ond yn cymryd ychydig funudau i chi wneud hyn.

Os ydych chi'n credu bod y wybodaeth a ddelir am eich eiddo yn anghywir, gofynnwch i ni ddiweddarau eich cofnodion.

Argymhellwn eich bod yn gwneud hyn erbyn 30 Tachwedd 2016. Gellir gwneud hyn yn [www.gov.uk/voa/revaluation](http://www.gov.uk/voa/revaluation).

Os nad ydych yn gwneud hyn, mae risg y byddwch yn talu gormod mewn ardrethi busnes.

### Beth sydd angen i chi ei wybod

- Er mwyn sicrhau bod y gwerthoedd newydd yn gywir ac yn gyson, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn defnyddio gwybodaeth am eiddo a thystiolaeth am rent.
- Bydd eich cyngor lleol yn defnyddio'r gwerth hwn i gyfrifo eich bil ardrethi busnes o 1 Ebrill 2017.
- Os bydd eich gwerth ardrethol yn is na £6,000, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes bach o 100%.
- Gallwch gael amcangyfrif o'ch bil ar gyfer 2017-18 ar lein.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.gov.uk/voa/revaluation](http://www.gov.uk/voa/revaluation).

### NAWR

Gwiriwch eich gwerth ardrethol drafft a rhoiwch wybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a yw'r wybodaeth a ddelir am eich eiddo yn anghywir.

### 1 Ebrill 2017

Mae gwerth ardrethol newydd yn dod i rym.